Diwrnod Cyntaf Rhys Lewis

Diwrnod Cyntaf Rhys Lewis yn yr Ysgol

Dydd Llun oedd hi ac roedd hi'n aeaf. Roedd Wil Bryan yn y drws yn galw amdana i yn fuan.
"Gofala di amdana fo, Wil, cofia", Dywedodd mam wrtho.

"Efallai fydd rhaid i ti ymladd efo un neu ddau o'r bechgyn heddiw", dywedodd Wil ar y ffordd i'r ysgol. "Fel arfer mae pob bachgen newydd yn gorfod cwffio, ond mi fyddai yna I edrych ar dy ol".

Doeddwn i ddim eisiau cwffio o gwbwl, ac mi roedd gen i ofn. Roedd gen i ofn hefyd i mam glywed am y peth, a doeddwn I'n bendant ddim eisiau dweud dim am hyn wrth Wil Bryan o bawb.

Adeilad hir, cul ag oer oedd ysgol Robin y Sowldiwr. O gwmpas y waliau roedd hen fainc cam ac o flaen y fainc roedd desgiau hir. Doedd yna ddim modfedd o'r ddesg yn lân gan fod llun neu enw wedi cael ei grafu i'r pren.

Ymhen draw yr ystafell ddosbarth, wrth ymyl y tân, Roedd desg y meistr. Desg Robin y Soldiwr.
Pan es i i mewn i'r ysgol roedd y bechgyn i gyd yno ac roedd yr ystafell yn swnllyd fel ffair. Roedd rhai bechgyn ar ben y ddesg hir, rhai eraill yn chwerthin a gweiddi'n uchel. Er fy mod yn teimlo'n ofnus roeddwn yn gweld pawb yn cael hwyl fawr.

Yn sydyn, dyma'r bachgen oedd ar ben y ddesg yn gosod ei ddau fys yn ei geg ac yn chwibanu dros y lle. Mewn fflach, roedd pob bachgen yn eistedd yn ei le a phawb yn tawelu.
Roeddwn i'n sefyll wrth y drws o hyd a dyma Robin y Sowldiwr i mewn a heibio i mi heb edrych dim. Roedd golwg ffyrnig ofnadwy arno.

Aeth y meistr yn syth at ei ddesg a thynnu allan gansen hir a chryf. Roedd o wedi clywed yr holl sŵn, mae'n rhaid. Aeth Robin y Sowldiwr o gwmpas yr ystafell ddosbarth a tharo llaw bob bachgen gyda'r gansen yn greulon. Y fi oedd yr unig un i beidio cael blas y gansen – a fi oedd yr unig un i grio. Aeth y meistr yn ôl at ei ddesg.

"Let us pray", Dywedodd.
Ar ôl y weddi, "Rivets, my boys" gwaeddodd. Daeth y bechgyn allan i roi ceiniog i'r meistr achos roedd hi'n fore dydd Llun. Roedd rhaid i bob bachgen oedd heb geiniog ddal ei law allan i'r gansen. Roedd y gansen yn gwneud i'r bechgyn ddawnsio yn ôl i'r fainc efo'u llaw o dan eu cesail neu rhwng eu coesau.
Ar ôl casglu'r 'rivets' dyma Wil Bryan yn mynd â fi at y meistr. Mi ysgrifennodd Robin y Sowldiwr fy enw yn y llyfr a chymryd y geiniog boeth o fy llaw.

"Now go to your place boy and you shall have a task".

Roeddwn yn eistedd rhwng Wil Bryan a bachgen o'r enw John Beck.

Oes gen ti geiniog arall?" gofynnodd John Beck.
"nac oes"
"O, Pa bryd fydd gen ti un? Dwi eisiau pethau da o'r siop"
"Cau dy geg" meddai Wil Bryan "neu mi gei di gweir gan Rhys 'ma"
"Be? Gan hwn? Ha!" atebodd Beck
"Hei Rhys, oes gen ti ofn y Beck 'ma?" gofynnodd Wil.
"Y.....ym.....nac oes".
Mewn pum munud roedd pob bachgen yn yr ysgol yn gwybod bod John Beck a'r bachgen newydd yn mynd i gwffio!

Am tua awr doedd dim gwaith yn mynd ymlaen yn yr ysgol. Roedd yr hen Sowldiwr yn darllen neu yn ysgrifennu a'r bechgyn i gyd yn siarad yn ddistaw efo'i gilydd. Fi a Beck oedd y testun.
"SILENCE" bloeddiodd y meistr bob ryw bum munud.

Am chwarter i un ar ddeg daeth amser chwarae a neidiodd pawb ar eu traed a rhuthro allan fel defaid yn mynd trwy giât i gae. Roedd fy nghalon yn curo fel drwm. Y peth nesaf, roeddwn yn cwffio efo Beck. Roedd fy llygaid ar gau rhan fwyaf o'r amser. Yn sydyn, dyna popeth yn gorffen. FI oedd wedi ennill! Mae'n rhaid fod Wil Bryan wedi fy helpu.

Daeth llais mawr y Sowldiwr yn gwaeddi o'r ysgol a mi aeth pawb i mewn yn dawel. Wedi i ni fynd i eistedd dyma'r meistr yn galw "Rhys Lewis and John Beck, to my desk NOW" Chwarae teg iddo daeth Wil Bryan at y ddesg hefyd i ddeud y stori.

"John Beck, sir, he challenged Rhys Lewis to fight". Meddai Wil Bryan.
"No sir" gwadodd Beck .

Dywedodd un bachgen arall yr un stori â Wil, roedd o'n elyn i Beck, wrth lwc!
"As it is your first day in school, boy, you shall go unpunished. You Beck shall have three strokes"
Roedd yn ddrwg iawn gen i glywed hynny. Galwodd y Sowldiwr ar Beck i ddal ei law allan.
"This is for fighting without reasonable cause" (crac)
"This is for losing the fight" (crac)
"This is for lying when I asked you what had happened" (crac)

Yn anffodus, mi welais ac mi glywais yr un peth lawer gwaith ar ôl hyn. Yn aml iawn roedd y bechgyn yn cael y gansen yn fwy aml na gwersi! Wrth gerdded adref, es i i'r siop i nol gwerth ceiniog o bethau da, mi wnes i eu rhannu efo Wil Bryan a John Beck.
Dyma hanes fy niwrnod cyntaf i yn yr ysgol.

Ewch ati i gymharu diwrnod cyntaf Rhys Lewis a’ch diwrnod cyntaf chi. Mewn lliw gwahanol cymharwch Ysgol Friars gyda Ysgol Robin y Soldiwr